------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 14 Mai 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 208(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Ein cenhadaeth genedlaethol: cyflawni blaenoriaethau addysg Cymru

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Dyfodol ffermio yng Nghymru

(45 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar: Gwella iechyd meddwl yng Nghymru

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol: Ein gweledigaeth ar gyfer gofal maeth yng Nghymru

(30 munud)

## 7 Datganiad gan y Prif Weinidog: Tata Steel

(60 munud)

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

(30 munud)

**NDM8579** Jeremy Miles (Castell-nedd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Troednodyn:

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mawrth 2023 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mai 2023, 11 Rhagfyr 2023 a 25 Ebrill 2024 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Gellir gweld copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

Data Protection and Digital Information Bill (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol (Memoranda Rhif 1 a Rhif 2)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memoranda Rhif 1 a Rhif 2)

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol ac adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memoranda Rhif 1 a Rhif 2)

Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol (Memorandwm Rhif 3)

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol (Memorandwm Rhif 3)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Rhif 3)

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Rhif 3)

Ymateb pellach y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Rhif 3)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Rhif 4)

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 15 Mai 2024

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 09/05/2024 i'w hateb ar 14/05/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

1 OQ61115 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth gofal iechyd yng Ngogledd Cymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

2 OQ61121 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu nifer y plant oedran ysgol gynradd sy'n gallu nofio?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

3 OQ61090 **(w)**

Beth yw polisi'r Llywodraeth ar orsafoedd trydan newydd sy'n cael eu pweru gan nwy yn Arfon?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OQ61109 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r rhesymau pam nad oes Gweinidog penodol ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc yn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ61106 **(e)**

Pa effaith y mae'r Prif Weinidog yn disgwyl i'r Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ei chael o ran meithrin ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth a gwleidyddion?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

6 OQ61114 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y defnydd o unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OQ61089 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno gwasanaeth gofal cenedlaethol?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ61118 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau ei gyfarfod â Tata ym Mumbai?

**Hefin David** *Caerffili*

9 OQ61117 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cymorth hyfforddi swyddi ar gael ledled Cymru, gan gynnwys drwy holl raglenni cyflogadwyedd a sgiliau Llywodraeth Cymru?

**Buffy Williams** *Rhondda*

10 OQ61104 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed a'r gwaith sydd i'w wneud tuag at ddatblygu cynllun iechyd menywod Llywodraeth Cymru?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ61119 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Phrif Swyddog Meddygol Cymru ynghylch gwasanaethau rhywedd yng Nghymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

12 OQ61120 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU i gytuno ar gyllid trawsffiniol i ddiogelu bywyd diwylliannol Cymru?